



Datganiad Prosesu Teg Adnoddau Dynol

Beth sy'n digwydd i wybodaeth a gedwir amdanoch chi? Eich hawliau a'n rhwymedigaethau i chi.

Sut rydym yn defnyddio data personol

Mae'r ddogfen hon yn esbonio sut mae gwasanaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Trefniadaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cael gafael ar wybodaeth am bobl (eu data personol), a'i chadw, ei defnyddio a'i datgelu, y camau rydym yn eu cymryd i sicrhau ei bod yn cael ei diogelu, a hefyd yn disgrifio'r hawliau sydd gan unigolion mewn perthynas â'u data personol sy'n cael eu trin gan wasanaeth Adnoddau Dynol/Datblygu Trefniadaethol CBSP.

Rheolir y defnydd o ddata personol a'u datgelu gan ddeddfwriaeth Diogelu Data. Yn hynny o beth, mae'n ofynnol i wasanaeth adnoddau dynol/datblygu trefniadaethol CBSP sicrhau ei fod yn ymdrin â'r holl ddata personol yn unol â'r ddeddfwriaeth.

Mae gwasanaeth adnoddau dynol/datblygu trefniadaethol CBSP yn cymryd y cyfrifoldeb hwnnw o ddifrif ac yn cymryd gofal mawr i sicrhau bod data personol yn cael eu trin yn briodol er mwyn sicrhau a chynnal ymddiriedaeth a hyder unigolion yn y Cyngor.

Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol bod gan wasanaeth adnoddau dynol/datblygu trefniadaethol CBSP sail gyfreithlon ar gyfer prosesu data personol yn dibynnu ar y gwasanaeth a ddarperir.

1. Pam rydym yn delio â data personol?

Mae adnoddau dynol yn prosesu gwybodaeth bersonol er mwyn:

- Recriwtio a dewis cyflogeion
- Cynnal camau gwirio cyn cyflogi
- Cynnig contractau cyflogaeth
- Cynorthwyo a rheoli ein cyflogeion yn unol â pholisïau adnoddau dynol
- Cyflogau a thaliadau ychwanegol
- Talu trethi cyflogaeth i CThEM
- Cynnal cofnodion cyflogaeth cywir a chyfredol a
- Darparu geiradaon ar gais ar gyfer cyflogeion presennol neu flaenorol
- Darparu gwybodaeth am gyflog ac oriau i'r darparwr pensiwn
- Defnyddio gweithwyr asiantaeth
- Talu ymgynghorwyr
- Prosesu ceisiadau profiad gwaith
- Prosesu categorïau arbennig sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchoddedig

2. Pa fath/ddosbarthiadau o ddata personol rydym yn eu trin?

Er mwyn cynnal y dibenion a ddisgrifir o dan adran 1 uchod gall CBSP gael gafael ar ddata personol, eu defnyddio a'u datgelu gan gynnwys y canlynol:



- Enw, cyfeiriad, dyddiad geni a manylion cyswllt, gan gynnwys cyfeiriad e-bost a rhif ffôn, a statws priodasol
- Manylion am gymwysterau, hyfforddiant, sgiliau, profiad a hanes cyflogaeth Gwybodaeth am hawl i weithio yn y DU a dogfennau adnabod gan gynnwys pasbort a gwybodaeth mewn perthynas â'ch statws mewnfudo a'ch hawl i weithio i CBSP
- Unrhyw anabledd a ddatgenir lle mae addasiadau rhesymol yn ofynnol Manylion banc a gwybodaeth mewn perthynas â statws treth gan gynnwys rhif yswiriant gwladol
- Gwybodaeth am daliadau cydnabyddiaeth (presennol a blaenorol), gan gynnwys hawliadau a didyniadau buddiannau pensiwn
- Manylion am rolau a lleoliadau presennol a blaenorol, oriau gwaith, manylion am ailraddio, a'r hawl i wyliau
- Gwybodaeth sy'n ymwneud ag iechyd yng nghyd-destun ffitrwydd i fynd i'r gwaith ac ymgymryd â chyfrifoldebau swydd
- Gwybodaeth yn ymwneud ag ymchwiliadau disgyblu neu gyflogaeth (gan gynnwys achosion lle nad chi oedd prif destun yr achosion hynny) Gwybodaeth yn ymwneud â'ch perfformiad, datblygiad proffesiynol ac ymddygiad yn y gwaith
- Gwybodaeth am nodweddion gwarchoddedig
- Manylion am euogfarnau ar gyfer rhai rolau

Bydd gwasanaeth adnoddau dynol/datblygu trefniadaethol CBSP dim ond yn defnyddio data personol priodol sy'n angenrheidiol i gyflawni diben neu ddibenion penodol. Gallai data personol fod yn wybodaeth a gedwir ar gyfrifiadur neu mewn cofnod ar bapur.

3. Pwy y prosesir gwybodaeth amdanynt

Er mwyn cynnal y dibenion a ddisgrifir o dan adran 1 uchod gall gwasanaeth adnoddau dynol/datblygiad trefniadaethol CBSP gael gafael ar ddata personol, eu defnyddio a'u datgelu am y canlynol:

- Ymgeiswyr am swyddi
- Cyflogeion
- Cyn-gyflogeion
- Pobl y cysylltwyd â nhw i ddarparu gwasanaeth
- Unigolion sy'n gwneud cais am brofiad gwaith ac yn ymgymryd â phrofiad gwaith

Bydd gwasanaeth adnoddau dynol/datblygu trefniadaethol CBSP dim ond yn defnyddio data personol priodol sy'n angenrheidiol i gyflawni diben neu ddibenion penodol. Gallai data personol fod yn wybodaeth a gedwir ar gyfrifiadur neu mewn cofnod ar bapur.



4. O ble rydym yn cael data personol?

Er mwyn cynnal y dibenion a ddisgrifir o dan adran 1 uchod gall gwasanaeth adnoddau dynol/datblygiad trefniadaethol CBSP gael gafael ar ddata personol o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys y canlynol:

- Unigolion eu hunain a dogfennaeth hunaniaeth berthnasol
- Canolwyr
- Cyflogwyr presennol, blaenorol neu ddarpar gyflogwyr yr unigolyn
- Addysg, sefydliadau hyfforddi a chyrrff arholi
- Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- Gweinyddwyr pensiwn

5. Sut rydym yn delio â data personol?

Er mwyn cyflawni'r dibenion a ddisgrifir o dan adran 1 bydd gwasanaeth adnoddau dynol/datblygu trefniadaethol CBSP yn ymdrin â data personol yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Yn arbennig byddwn yn sicrhau bod data personol yn cael eu trin yn deg ac yn gyfreithlon gyda chyfiawnhad priodol. Byddwn yn ceisio sicrhau bod unrhyw ddata personol a ddefnyddir gennym ni neu ar ein rhan o'r ansawdd uchaf o ran cywirdeb, perthnasedd, digonolrwydd a pheidio â bod yn ormodol, yn cael eu diweddarau fel y bo'n ofynnol, yn cael eu diogelu'n briodol, ac yn cael eu hadolygu, eu cadw a'u dinistrio'n ddiogel pan na fydd eu hangen mwyach.

6. Sut rydym yn sicrhau diogelwch data personol?

Mae CBSP yn cymryd diogelwch holl ddata personol o ran ein rheolaeth o ddifrif. Byddwn yn sicrhau bod mesurau polisi, hyfforddiant, technegol a gweithdrefnol yn eu lle, gan gynnwys monitro archwilio a chywirdeb, i ddiogelu ein systemau gwybodaeth â llaw ac electronig rhag colli data a'u camddefnyddio, a dim ond yn caniatáu mynediad iddynt pan fo rheswm dilys i wneud hynny, ac wedyn o dan ganllawiau llym o ran pa ddefnydd y gellir ei wneud o unrhyw ddata personol ynddynt. Mae'r gweithdrefnau hyn yn cael eu rheoli a'u gwella'n barhaus er mwyn sicrhau'r diogelwch diweddaraf.

7. I bwy rydym yn datgelu data personol iddynt?

Weithiau mae angen i ni rannu gwybodaeth â'r unigolion rydym yn prosesu gwybodaeth amdanynt a sefydliadau eraill. Pan fo hyn yn angenrheidiol mae'n ofynnol i ni gydymffurfio â phob agwedd ar y ddeddfwriaeth. Yr hyn sy'n dilyn yw disgrifiad o'r mathau o sefydliadau efallai y bydd angen i ni rannu rhywfaint o'r wybodaeth bersonol a broseswn â nhw am un neu fwy o resymau:

- Rheolwyr ac adrannau eraill yn CBSP
- Ysgolion
- Cyflogwyr presennol, blaenorol a darpar gyflogwyr
- Darparwr lechyd Galwedigaethol
- Darparwyr hyfforddiant a chyrrff arholi
- Llywodraeth Cymru



- Undebau llafur
- Cyrff rheoleiddio
- Heddluoedd
- Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- Gweinyddwyr pensiynau
- Darparwyr hyfforddiant
- Darparwyr asiantaeth
- CThEM

Weithiau gall fod yn angenrheidiol i'r Cyngor drosglwyddo gwybodaeth bersonol dramor. Pan fo angen hyn efallai y bydd gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo i wledydd neu diriogaethau ledled y byd. Bydd unrhyw drosglwyddiadau a wneir yn cydymffurfio'n llawn â phob agwedd ar y ddeddfwriaeth.

8. Beth yw eich hawliau mewn perthynas â'ch data personol sy'n cael ei drin gan CBSP?

Mae gan unigolion hawliau amrywiol:

1. Yr hawl i gael gwybod
2. Yr hawl i fynediad
3. Yr hawl i gywiro
4. Yr hawl i ddileu
5. Yr hawl i gyfyngu prosesu
6. Yr hawl i gludadwyedd data
7. Yr hawl i wrthwynebu
8. Hawliau mewn perthynas â phenderfynu a phroffilio awtomataidd

(Yr hawl i gael gwybod)

Mae gennych chi hawl i gael gwybod am gasglu a defnyddio eich data personol.

Rhaid i'r Cyngor roi gwybodaeth i chi yn cynnwys: dibenion prosesu eich data personol, y cyfnodau cadw ar gyfer y data hwnnw, ac â phwy y caiff ei rannu. Gelwir hyn yn 'wybodaeth preifatrwydd'.



Mae gan unigolion wahanol hawliau:

Hawl mynediad

Gallwch gael copi, yn amodol ar eithriadau, o'ch data personol a gedwir gan y Cyngor. Mae copi o'r ffurflen gais ar gael ar ein gwefan:

<https://www.bridgend.gov.uk/cy/fy-nghyngor/rhyddid-gwybodaeth/diogelu-data/>

Mae gennych hefyd hawl i gael cadarnhad a yw data sy'n ymwneud â chi yn cael ei brosesu gan y Cyngor ai peidio. Os yw hynny'n wir, mae gennych hawl i'r wybodaeth ganlynol yn amodol ar eithriadau:

- Pwrpasau a sail gyfreithiol y prosesu
- Y categorïau o ddata personol dan sylw
- Y derbynwyr y datgelwyd y data personol iddynt
- Y cyfnod y rhagwelir y bydd y data personol yn cael ei storio
- Cyfathrebu'r data personol sy'n cael ei brosesu, ac unrhyw wybodaeth sydd ar gael o ran ei darddiad.

** Sylwch fod 'prosesu' yn golygu gweithrediad neu set o weithrediadau a gyflawnir ar ddata personol megis casglu, cofnodi, trefnu, strwythuro, storio, addasu, newid, dileu, cyfyngu, adfer.*

(Mae'n bosibl y bydd angen Prawf Adnabod ac unrhyw wybodaeth bellach sydd ei hangen i ddod o hyd i'r wybodaeth cyn y gall y Cyngor gydymffurfio â'ch cais.

Dylid gwneud unrhyw gais am y wybodaeth uchod yn ysgrifenedig i'r Swyddog Diogelu Data a bydd y Cyngor yn ymateb o fewn mis.

Cywiro data

Gallwch ofyn i'r Cyngor gywiro data personol anghywir sy'n ymwneud â chi. Os yw'r data yn anghywir oherwydd ei fod yn anghyflawn, rhaid i'r Cyngor ei gwblhau os yw'n ofynnol iddo wneud hynny gennych chi.

Dylid gwneud cais yn ysgrifenedig i'r Swyddog Diogelu Data a bydd ymateb yn cael ei anfon o fewn mis.

Dileu neu gyfyngu data personol

Gallwch ofyn i'r Cyngor ddileu'ch data neu gyfyngu ar unrhyw brosesu ar eich data, yn amodol ar eithriadau.



Dylid gwneud pob cais i'r Swyddog Diogelu Data. Yna bydd y Cyngor yn eich hysbysu a yw'r cais wedi'i ganiatáu ac os gwrthodwyd ef, y rhesymau dros y gwrthod.

Hawl i beidio â bod yn destun gwneud penderfyniadau awtomataidd

Mae gennych yr hawl, yn amodol ar eithriadau, i beidio â bod yn ddarostyngedig i benderfyniad pan fydd yn seiliedig ar brosesu awtomataidd a'i fod yn cael effaith gyfreithiol neu effaith sy'n debyg iawn arnoch chi. Mae gennych hawl i fynegi'ch safbwynt a chael esboniad gan y Cyngor o'i benderfyniad a'i herio.

Ond dylid nodi nad yw'r hawl hwn yn berthnasol i bob penderfyniad gan fod eithriadau, er enghraifft, awdurdodiad yn ôl y gyfraith, cyflawni contract y byddwch chi'n barti iddo.

Yr hawl i gludadwyedd data

Mae'r hawl i gludadwyedd data yn caniatáu i chi gaffael a defnyddio eich data personol i'ch dibenion eich hun ar draws gwasanaethau gwahanol.

Nid yw'r hawl yn berthnasol ond i'r wybodaeth yr ydych chi wedi ei rhoi i'r Cyngor.

Yr hawl i wrthwynebu

Mae gennych chi'r hawl i wrthwynebu prosesu eich data personol mewn rhai amgylchiadau.

Mae gan y Cyngor un mis calendr i ymateb i wrthwynebiad.

9. Pa mor hir mae CBSP yn cadw data personol?

Mae CBSP yn cadw data personol cyhyd ag sy'n angenrheidiol ar gyfer y diben neu ddibenion penodol ar gyfer eu cadw yn unol â [Pholisi Cadw Data](#) y Cyngor.

10. Y sail gyfreithlon yr ydym yn defnyddio'r wybodaeth hon arni.

Yn dibynnu ar y gweithgaredd prosesu, rydym yn dibynnu ar y sail gyfreithlon ganlynol dros brosesu data personol:

- mae prosesu'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni contract.
- fel y gallwn gydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol fel eich cyflogwr.
- er mwyn amddiffyn eich buddiannau allweddol i fywyd neu rai person arall.
- er mwyn cyflawni ein gorchwyl gyhoeddus.
- i ddibenion ein buddiant dilys.



11. Cysylltu â ni

Gall unrhyw unigolyn sy'n pryderu ynghylch sut mae CBSP yn ymdrin â data personol gysylltu â Swyddog Diogelu Data'r Cyngor fel a ganlyn:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfa Wybodaeth, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB.

E-bost foi@bridgend.gov.uk

Ffôn 01656 643565

Gallwch hefyd godi pryderon gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Cymru

2il Lawr

Tŷ Churchill

Ffordd Churchill

Caerdydd

CF10 2HH

Ffôn: 02920 678400 Ffacs: 02920 678399

E-bost: wales@ico.org.uk

Gwefan: <https://ico.org.uk/>